

# O'r Pedwar Gwynt

**DATGANIAD I'R WASG / Cyhoeddi rhifyn Haf 2019**

I'w ryddhau: 3 Awst 2019

## Dymchwel eicon

**Cwestiynu chwedl Betsi Cadwaladr, ochr dywyll meddwlgarwch, 'darllen ffrwydrol' yn ein bywydau prysur, a cherddoriaeth gwrth-Thatcher yng Nghymru'r wythdegau.**

**Yn rhifyn Haf 2019, mae O'r Pedwar Gwynt yn teithio o Gymru i Tsieina gan graffu ar hanes a mytholeg a dadlennu'r hyn sydd yn gorwedd dan yr wyneb.**

Troi at Betsi Cadwaladr wrth astudio hanes efo'r Brifysgol Agored mae **Gruffydd Jones**, gan ddarganfod, ar ôl tyrchu mewn archifau, fod bywgraffiad yr eicon yn llawn anwiredd. Myfyria ar y modd y crëwyd mytholeg o fywyd Cadwaladr er mwyn bodloni agenda gwleidyddol, a pham bod y gwirionedd yn fwy diddorol na'r myth.

Mewn ysgrif ar 'fyw dan *jackboots* Maggie Thatcher', myfyria **Dafydd Rhys** ar y syniad fod cyfnod Thatcher mewn grym yn cyd-fynd ag un o'r cyfnodau mwyaf syfrdanol o ran esblygiad hanes canu cyfoes Cymraeg. Dengys sut yr oedd diweithdra yn plethu â chreadigrwydd, a bandiau newydd yn gwthio'r ffiniau yn ddaearyddol, yn gymdeithasol ac yn gerddorol, gyda chymunedau o gerddorion yn ffynnu ledled Cymru.

Meddwlgarwch (*mindfulness*) sy'n cael sylw **Angharad Penrhyn Jones**. Ceir yma drafodaeth ar ei phrofiad personol o orbryder, y modd yr ymatebodd i sesiynau myfyrio ar gwrs ym Mhrifysgol Bangor, a pham fod cyfeddiannaeth y gorllewin neoryddfrydol o Fwdistiaeth Asia yn rhywbeth i fod yn wylriadwrus ohono.

Hola **Llion Wigley**, awdur cyfrol newydd ar yr 'anymwybod Cymreig', a oes agweddau o ddirfodaeth a seicdreiddiad sy'n werth eu hailystyried heddiw. 'Athroniaeth argyfwng ydyw dirfodaeth yn ei hanfod,' dadleua, 'ac mae'n glir ein bod yn wynebu sawl argyfwng dirfodol yn ein hoes ni.'

Trafod y broses o ddarllen mae **Mererid Puw Davies**. Cwestiynir ganddi'r freuddwyd o ddarllen yn ystod 'oriau bwygilydd' sydd yn agor o'i blaen 'fel gorwel diddiwedd', a cheir ganddi ddatliad annisgwyl o'r weithred o bori'n sydyn mewn llyfrau, yn gyfrinachol mewn pwyllgorau, rhwng dwy arhosfan yn y bws ac mewn 'ysbeidiau nerthol'. A beth mae hi'n ei ddarllen? Cerddi **Iestyn Tyne**.

Wrth i ni wynebu'r her o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, dadleua **Mererid Hopwood** fod y cwestiwn 'Beth yw iaith?' yn dal i wasgu. Sut mae'r ieithoedd a siaradwn yn ein ffurfio a pham bod amlieithrwydd yn hanfodol? Gan drafod syniadau J R Jones, O M Edwards a Denis Bouchard, datblyga ddamcaniaeth werthfawr am 'ddoethineb iaith'.

A hithau'n 30 mlynedd ers protestiadau Tiananmen, cyhoeddir detholiad o waith yr awdur dylanwadol o Tsieina, **Yu Hua**, sy'n olrhain esblygiad y gair 'Arweinydd'. **Aled Gruffydd Jones** sy'n

troi ei sylw at y gyfrol *Inconvenient Memories* gan Anna Wang, gan gofio ei ymweliad yntau â'r Sgwâr. A ninnau'n clywed yn gynyddol am y cyfyngiadau ar Fwslemiaid talaith Xinjiang yng ngogledd-orllewin Tsieina, cyhoeddwn yn yr un rhifyn ysgrif yn olrhain hanes teulu Mwslemaidd yn y rhan hon o'r byd.

Mae rhifyn Haf 2019 hefyd yn cynnwys stori feiddgar gan **Megan Angharad Hunter**, 'Maes B', enillydd Medal Ryddiaith 26 oed ac iau yn Eisteddfod Môn. Ymhlith yr adolygiadau, **Grug Muse** sy'n gresynu na fyddai'r nofel *Tom* gan Cynan Llwyd yn llaesu mwy ar ei staes; **Richard Crowe** sy'n canmol *On the Red Hill* gan Mike Parker; a throi at hanes llyfr yn ei deulu mae Heini Gruffudd – 'yr hanes tywyll nad oedd nifer am ei ddatgelu' am Natsiaeth mewn pentref yn yr Almaen. **Mihangel Morgan** (Gwynt y Dwyrain), â'i eironi nodweddiadol, sy'n trafod y profiad o gwrdd â'r 'cewri' llenyddol, tra mae **Emyr Ll Gruffudd** (Cyffesion llyfrbryf) yn dathlu ein siopau llyfrau annibynnol. Ceir cyfweiliad hefyd â'r cyfieithydd **Marie-Thérèse Castay**, a dderbyniwyd yn aelod o Orsedd y Beirdd flwyddyn yn ôl am ei chyfraniad sylweddol i lenyddiaeth Cymru. Ac yn ei golofn Socrates ar y stryd, mae **Huw L Williams** yn dadansoddi syniadau Rory Stewart, 'yr ymgeisydd mwyaf trawiadol yn y ras am arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol', gan werthfawrogi ei allu prin ymysg gwleidyddion i gadw ei draed yn gadarn ar y ddaear.

Yn ôl y Golygydd, **Sioned Puw Rowlands**, 'Yn y rhifyn hwn mae *O'r Pedwar Gwynt* yn teithio, yn ôl ein harfer, i bedwar ban byd gan ddilyn hynt cwch Betsi Cadwaladr o'r Caribî i Sydney a theithio i Sgwâr Tiananmen a Wittenberg yn yr Almaen. Mewn cyfnod lle mae'n demtasiwn canolbwyntio ar ein problemau cenedlaethol a dim arall, rydym yn falch o fedru cyhoeddi cyfraniadau sydd nid yn unig yn craffu ar Gymru, ond sydd hefyd yn ystyried, yn ein hiaith ein hunain, ffyrdd o weld y byd tu hwnt i'n gorwelion ni.'

Mae *O'r Pedwar Gwynt* ar gael drwy'r post, ar-lein ar [pedwargwynt.cymru](http://pedwargwynt.cymru), ac mewn siopau llyfrau ledled Cymru; pris £4.95, 44tt.

## DIWEDD

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag Angharad Penrhyn Jones trwy'r cyfeiriad ebost [angharad@pedwargwynt.cymru](mailto:angharad@pedwargwynt.cymru) neu ar **07896 984858**.

## Nodiadau i'r Golygydd

- Mae *O'r Pedwar Gwynt - cylchgrawn llyfrau Cymru* yn adlewyrchu ac yn cwestiynu syniadau am y Gymru gyfoes a'i lle yn y byd;
- Mae rhifynnau print yn ymddangos deirgwaith y flwyddyn – Haf, Gaeaf a Gwanwyn – a chyhoeddir deunydd newydd bob nos Fercher ar [www.pedwargwynt.cymru](http://www.pedwargwynt.cymru);
- Sefydlwyd *O'r Pedwar Gwynt* yn Haf 2016. Cyhoeddir y cylchgrawn gan *O'r Pedwar Gwynt Cyf.* mewn partneriaeth ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, gyda chefnogaeth Cyngor Llyfrau Cymru;
- Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am *O'r Pedwar Gwynt* i'w chael ar y wefan. Gellir dilyn y cylchgrawn ar Facebook, Twitter ac Instagram.